

Cyngor Cymuned Llanelian (288)

Cofnodion cyfarfod Nos Fawrth Mehefin 6, 2017 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Dafydd Griffiths, John Griffiths, Elfyn Hughes, Thomas Jones, Glenys Jones, Helen Hughes, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Cyng Richard Griffiths, Cyng Aled Jones

Ymddiheuriadau: Hefina Williams, Cyng Richard Jones

Yn bresennol: Carli Evans Thau (Clerc), Dylan Owen (Hwylusydd Tai Annibynnol)

1 Croeso
Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.

2 Datgan Diddordeb
Thomas Jones – Cais Cynllunio Tregarth
Carli Evans Thau - Cyfethol

3 Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd
Cynnigwyd bod Dafydd Griffiths yn parhau yn Gadeirydd am flwyddyn arall. Cynnig Thomas Jones, eilio Helen Hughes pawb yn cytuno. Derbyniwyd y Gadair.

4 Hwylusydd Tai Gwledig (Dylan Owen)
Diolchod Dylan Owen am y cyfle i gael mynychu'r cyfarfod. Amlinellodd ei rol fel Hwylusydd Tai Gwledig gan nodi bod yn rol yn annibynnol er bod y swyddfa gyda Grwp Cynefin. Pwrpas y swydd yw cydweithio gyda cymunedol gwledig i adnabod yr angen am dai yng nghefn gwlad. Cydnabod nad oedd pwrpas adeiladu tai os nad oes angen amdanynt.

Deallwyd bod CSYM yn awyddus cael arolwg o'r angen am dai gwledig yn ardal Penysarn a Llanelian yn dilyn derbyn cais am nifer o dai ar safle'r Bedol cynt. Roedd Dylan Owen am gael cefnogaeth y Cyngor Cymuned i ddanfôn holiaduron i drigolion y pentref i gasglu gwybodaeth am yr angen am dai i bobl lleol (ei ddiffiniad o bobl lleol oedd y bobl hynnu gyda cysylltiad a'r pentref). Efallai bydd yr arolwg yn dangos nad oes angen am dai yn yr ardal, ond os oes angen, bydd y wybodaeth yn dangos y math o dai sydd eu hangen a'r nifer ohonynt.

Trafodwyd y diffiniad o dai fforddiadwy, a'r gwahanol gynlluniau sydd yn bosib gyda cymorth Grwp Cynefin h.y. tai rhent cymdeithasol, tai wedi'i prynnu'n rhannol (gyda % yn parhau ym mherchnogaeth Grwp Cynefin). Ni fyddai Grwp Cynefin yn adeiladu tai nes bod tystiolaeth o'r gwir angen am dai mewn ardal.

Mae'n debyg bod caniatad cynllunio ar gyfer 28 o dai ym Mhenysarn yn barod heb ystyried safle'r Bedol. Deallwyd bod y CYngro Sir yn awyddus i'r datblygiad yma fynd yn ei flaen. Nodwyd gan nad oedd arolwg wedi ei gwblhau yn yr ardal, nid oedd posib cadarnhau yr angen am dai fforddiadwy neu peidio heb dystiolaeth i'w gefnogi.

Nodwyd pryderon y Cyngor am broblemau carffosiaeth a pharcio yn y pentref, a chafwyd sicrwydd byddai Grwp Cynefin neu datblygwyr arall yn edrych ar hyn cyn datblygu gan y byddai yn cael effaith ar gost y datblygiad. Roedd pryderon hefyd am nifer o dai 'fforddiadwy' yn cael eu prynnu yn ail gartrefi a thai haf.

Diolchwyd i Dylan Owen am ymuno a'r cyfarfod a chadarnhawyd byddai'r clerwr yn cysylltu i gadarnhau a fyddai'r Cyngor yn gefnogol o arolwg neu peidio.

Cytuno dylid gefnogi arolwg ar anghenion tai lleol – byddai hyn yn dangos y ffeithiau a byddai tystiolaeth i gefnogi penderfyniadau pan ddau ceisidau newydd ger bron y Cyngor.

Nodwyd nad oedd cais cynllunio ar gyfer datblygiad ar safle'r Bedol wedi cyrraedd y Cyngor Cymuned hyd yma. Nodwyd mai'n debyg mai'r adran dai (CSYM) sydd o blaid y datblygiad mewn egwyddor. Bydd cyfnod o 21 diwrnod i gael rhoi barn ar y cais fel unrhyw gais cynllunio arall. Cafwyd addewid gan Cyng Aled Jones y byddai yn galw cais o'r fath ger bron y Pwyllgor Cynllunio gan ei fod yn ddatblygiad mawr i bentref bach. Mae llawer o wrthwynebiad i'r cais ar facebook ers i gynlluniau posib gael eu harddangos ar boster ar y safle.

5 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Elfyn Hughes, eilio Carol Whitaker.

6 Materion yn Codi o'r Cofnodion

6.1 Lon yr Ysgol

Nid oes diweddariad o'r sefyllfa. Nodwyd bod carafan wedi ei barcio tu allan i'r tai Cyngor ers peth amser ac felly yn cymryd nifer o lefydd parcio prin. Cyng Aled Jones i gysylltu a'r swyddogion priodol.

Nodwyd bod prosiect ar y cyd gyda'r ysgol a'r heddlu yn bodoli yn Llanfairpwll i godi ymwybyddiaeth o broblemau traffic a gor-yrru ger yr ysgol. Cyng Richard Griffiths i gysylltu a'r heddlu i wneud ymholiadau pellach.

Cynnigwyd byddai posib clirio peth o'r glaswellt ar ymyl y lon ger yr ysgol (ochr dde'r lon wedi pasio'r ysgol tuag at Pengorffwysfa). Byddai o bosib parcio hyd at chwech car yma. Cyng Aled Jones i wneud ymholiadau gyda'r swyddogion priodol.

6.2 Diogelu Enwau Hanesyddol

Daw cydnabyddiaeth gan y Cynulliad o dderbyn gohebiaeth y Cyngor. Mae disgwyl ymateb erbyn 29/6/2017. Nodwyd mai nad dim ond enwau Cymraeg sydd angen eu diogelu ond enwau hanesyddol yn gyffredinol. Thomas Jones i drefnu cyfarfod gyda chynrychiolwyr Stad Llys Dulas yn sgil y datblygiadau sydd ar y gweill yn y gymuned leol dros y flwyddyn nesaf.

6.3 Rhos Newydd

Nid oes cadarnhad gan CSYM fyth ond mae disgwyl ymateb swyddogol erbyn canol mis Mehefin. Nodwyd bod y gwaith wedi peidio a'r peiriannau wedi symud.

6.4 Golau'r Neuadd

Nid yw'r gwaith wedi'i wneud hyd yma. Y clerc i gysylltu gyda Alan Phillips eto.

6.5 Hysbysfwrdd

Mae'r bwrdd wedi'i osod erbyn hyn. Cytuno tynnu hen hysbysfwrdd o'r safle bws a gosod yr enw oddi arno ar y hysbysfwrdd newydd.

6.6 Swyddfa Bost

Nid oedd diweddariad ar y sefyllfa.

6.7 Meinciau

Mae'r gwaith o drin y meinciau coed wedi ei gwblhau erbyn hyn. Nodwyd bod y gwaith o safon a bod y contractiwr wedi paentio a thrin y gwaith metel hefyd.

Nododd Dafydd Griffiths ei fod wedi gwneud trefniadau ar gyfer trin y mainc yng Nghae Chwarae Tyddyn Waen.

Cadarnhaodd y clerc byddai mainc blastig newydd yn cyrraedd i Faes Llwyfo ymhen pythefnos. (Partneriaeth Llwyfo fydd yn talu am hwn).

6.8 Parcio ar y glaswellt ar y gyffordd a'r A5025

Nododd Cyng Aled Jones ei fod wedi siarad ag Huw Percy (swyddog priffyrdd CSYM). Nodwyd bod car arall wedi bod ar werth ar y glaswellt ers y cyfarfod diwethaf. Cytuno disgwyl a fydd ymateb gan CSYM erbyn y cyfarfod nesaf cyn dwyn sylw at y mater eto.

6.9 Giat y Fynwent

Cafwyd ddiweddariad am y wybodaeth sydd wedi ei gofrestru am y giat. Cytuno parhau i gasglu mwy o wybodaeth. Tybiwyd efallai byddai gan yr Eglwys gofnod o brynnu'r giat wreiddiol.

6.10 Etholiad a Chyfethol

Daw ateb gan Dr Gwynne Jones i'r llythyr yn nodi siom a phryderon y Cyngor. Nododd Elfyn Hughes nad oedd unrhywun wedi cysylltu ag o ers iddo dderbyn llythyr anghywir a ffonio'r swyddfa i wirio'r sefyllfa.

Un cais a dderbyniwyd yn dilyn arddangos y poster cyfethol. Derbyniwyd cais Ian N Evans, y clerc i baratoi'r dogfennau priodol a'i wahodd i'r cyfarfod nesaf.

Nodwyd bod nifer o aelodau'r Cyngor hefyd yn ymddiriedolwyr ar Bwyllgor y Neuadd, byddai posib gwneud cais i'r Pwyllgor Safonau ar mwyn cael yr hawl i drafod materion yn ymwneud a'r Neuadd gan nad oes budd personol. Mae'r un broblem yn codi gyda Partneriaeth Llwyfo.

6.11 Comisiwn Beddau Rhyfel

Nid oes ymateb gan Step-Change ynglyn a thrin a thwtio'r bedd hyd yma. Y clerc i gysylltu eto.

6.12 Polisiau'r Cyngor

Nid yw'r pwyllgor wedi cwrdd i drafod ymhellach – aelodau i aros ar ddiwedd y cyfarfod a phenu dyddiad ac amser.

7 Caeau Chwarae

Cafwyd ymateb gan Playquest ynglyn a'r rwber o amgylch y llithren. Nid oedd pwyllgor y cae chwarae yn cytuno fod yr arwyneb yn ddigonol fel nodwyd yn ebost y cwmni. Cytuno gofyn i Playquest ymweld a'r safle eto a chwrrd a chynrychiolwyr y pwyllgor. Byddai posib y dyfodol chwilio am arian i gael offer newydd i'r parc.

Daw adroddiadau cyntaf Medwyn Owen ar ddiogelwch y caeau chwarae. Dosbarthwyd copiau er gwybodaeth i aelodau pwyllgor y cae chwarae.

8 Llithrfa

Cafwyd grynodedb gan Dafydd Griffith so gyfarfod diwethaf Partneriaeth Llithrfa Llanelian. Nid oedd unrhyw broblemau hyd yma, roedd y bolard wedi ei osod gan CSYM, byddai bwi newydd wedi cael eu gosod unwaith bydd yn ddiogel i wneud hynnu. Nodwyd bod angen gofyn i CSYM osod arwydd ar dop y llithrfa yn hysbysebu rhif ffon mewn argyfwng gan nad oedd ffonau symudol yngweithio'n dda iawn ar y traeth. Bydd angen monitro bod y postyn yn cael ei osod yn ol gan ddefnyddwyr ac fe ofynnwyd i'r clerc gysylltu a phawb sydd wedi cael goriad hyd yma i'w hatgoffa.

9 Cynllunio

9.1 Ceisiadau – roedd tri cais i'w ystyried:

- Cae Gron (24C225C) – cais i godi annedd o'r newydd – gwrthwynebwyd y cais ar sail lleoliad ac angen am am y math o dy.
- Tregarth (24C345) – cais i godi annedd o'r newydd – pryderon am ddiogelwch mynediad i'r lon; cytuno gadael y cais i ddoethineb y swyddogion.
- Tyn Chwarel (24C333B) – cais i ddymchwel y ty Presennol a chodi annedd o'r newydd – dim sylw

9.2 Penderfyniadau – cafwyd wybod am benderfyniadau y Cyngor Sir fel a ganlyn:

- 2 Tan y Bryn (24C297B) – caniatad
- Auckland (24C344) - gwrthod

10 Materion Ariannol

10.1 Taliadau

Cymeradwywyd y taliadau canlynol:

£656.40 Ynys Trading Cyf (Hysbysfwrdd)

£266.54 Zurich (Yswiriant)*

£390.00 NBB (Mainc Maes Llwyfo – l'w ad-dalu)

£272.23 Cyflog Mis Mai

£169.43 Viking Direct (Offer gweinyddol)

£87.00 M Owen (Archwiliadau Caeau Chwarae)

£180.00 IG Jones (Gwasanaethau cyflogaeth 2016/17)

*Mae'r polisi yswiriant yr un peth a'r flwyddyn cynt. Unwaith bydd y gofrestr asesdau wedi ei ddiweddarau bydd posib ychwanegu eitemau ar y polisi. Ni fydd cost gweinyddol am hyn.

10.2 Archwiliad

Mae'r archwiliad mewnol wedi ei gwblhau gan J Roberts. Cymeradwywyd y dogfennau i'w hafnon at yr archwiliwr allannol. Dafydd Griffiths a Helen Hughes i'w gwirio cyn eu hafnon.

10.3 Ceisiadau am Arian

Nid oedd cais o'r newydd. Cafwyd ddau ebost o ddiolch gan gynryciolwyr Egwlys Llanwenllwyfo am haelioni'r Cyngor.

10.4 Cofrestr Asedau

Dosbarthwyd ddogfen ddrafft i'r rheini oedd yn bresennol a thrafodwyd ei gynnwys. Cytuno gofyn i Swyddfa Archwilio Cymru am arweiniad yng nghyfarfod nesaf Un Llais Cymru. Gobeithio gallu trafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

Gardd Top Rallt – cytuno cysylltu a Mairwen Gerrard i drefnu bod clwb garddio'r ysgol yn cael cyfle i chwynu a phannu blodau yn ol y trefniant gwreiddiol.

11 Cronfa Ty Moel Isaf

Cytuno gohurio'r drafodaeth nes bydd cynnig pendant ar sut dylai'r arian gael ei glustnodi. Bydd giat y fynwent yn un prosiect.

12 Toiledau Cyhoeddus

Daw llythyr gan CSYM yn gofyn am gadarnhad a fyddai'r Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb am y toiledau cyhoeddus ger y traeth. Mae angen ymateb erbyn 3/7/2017.

Mae'r syniad eisioes wedi ei drafod gyda Partneriaeth y Llithrfa gyda rheini yn pwysleisio pwysigrwydd y toiledau i'r rheini sydd yn cerdded y llwybr cyhoeddus a defnyddwyr y traeth. Cytuno bod cyfleusterau o'r fath yn hanfodol bwysig i ddiwydiant twristiaeth yr ynys. Cytuno ymateb i llythyr CSYM gan nodi bod y dyddiad ymateb yn rhy fyr-rybydd a bod angen trafod

ymhellach. Cytuno hefyd gwahodd Dewi Williams a Bob Parry, deilydd portfolio i'r cyfarfod nesaf i drafod ymhellach.

13 Wylfa Newydd (PAC3)

Dosbarthwyd gopiau o ddogfen ymgynghori diweddaraf Horizon. Rhoddwyd grynodedb o'r prif newidiadau gan Dafydd Griffiths. Nodwyd bod Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon wedi cwrdd ar y cyd gyda Horizon a CSYM i drafod y ddogfen a'r cynlluniau diwygiedig. Trafodwyd pryderon yr aelodau gan nodi bod yr un pryderon ar ran ardal Llanellian yn parhau ers y cychwyn cyntaf. Roedd yr aelodau yn hapus i gefnogi Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon a Chyngor Cymuned Llanbadrig yn eu hymateb.

Bydd y Bartneriaeth yn cwrdd eto 13/6/2017 ble bydd cyfle i drafod pryderon y cylch mewn mwy o fanylder cyn ymateb.

14 Gohebiaeth

- 14.1 Mae cyfle i pob Cyngor tref a chymuned enwebu aelod ar gyfer y pwyllgor safonau. Mae angen enwebu erbyb ddiwedd mis Gorffennaf os am wneud hynnu.
- 14.2 Daw cais i wirio llwybr cyhoeddus ger Henblas ac Eilian Court. Mae hyn wedi ei drafod yn y gorffennol ac nid oedd gwrthwynebiad ar yr amod bod y llwybr newydd wedi ei arwyddo'n glir.

15 Unrhyw Fater Arall

- 15.1 Arwydd ffordd tu allan i Hafan, Allt Nebo wedi ei ddifrodi ac yn rhydd. Cyng Aled Jones i gysylltu a CSYM i'w drwsio.
- 15.2 Golau stryd ar Lon Gadfa wedi ei ddifrodi – Cyng Aled Jones i wneud ymholiadau.
- 15.3 Llwybr o Lon Tyddyn Waen tua'r mynydd wedi gor-dyfu. Gofyn i Richard Edwards gael golwg cyn gynted a phosib.
- 15.4 Cae ger Cae Pant – mae'r tir wedi ei werthu a daw cwynion am feiciau modur yn cael eu gyrru ar drac o amgylch y cae. Mae'n debyg bod y beiciau yn cael eu cadw mewn container ar y cae (heb ganiatad cynllunio hyd y gwyddom).

16 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Bydd y cyfarfod nesaf Gorffennaf 4, 2017 am 7 o'r gloch.

Bu'r cyfarfod orffen am 21.20.

Arwyddwyd
Dafydd Griffiths
Cadeirydd